Datganiad o Ddisgwyliad CAFCASS Cymru

Rhaglen Trefniadau Plentyn

gcclbt cymru cafcass
Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
Children and Family Court Advisory and Support Service

Gwrandawiad Cyntaf Penodiad Datrys Anghydfod (FHDRA), Gwrandawiad Terfynol a Gwrandawiadau Gorfodi

Mae Paragraff 14 o Gyfarwyddyd Ymarfer 12B yn nodi'r trefniadau ar gyfer datrys anghydfod yn y llys.

Dyma bwyntiau allweddol y Cyfarwyddyd Ymarfer sy'n ymwneud â CAFCASS Cymru:

- Bydd Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn mynydu'r Gwrandawiad Cyntaf Penodiad Datrys Anghydfod (FHDRA).
- Lle y bo hynny'n ymarferol, bydd y Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn siarad â phob parti ar wahân yn y llys cyn y gwrandawiad, yn enwedig lle na fu'n bosibl cynnal cyfweliad i nodi risg gydag unrhyw barti.
- Bydd y Barnwr, gan weithio gyda'r Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn ceisio cynorthwyo'r partïon i ddatrys rhai neu'r cyfan o'r materion rhyngddynt.
- Bydd y Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn cynghori'r llys am unrhyw ddull a argymhellir o ddatrys unrhyw faterion heb eu datrys.
- Bydd penderfyniadau'r llys a gwaith y Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn ystyried unrhyw risg neu faterion diogelu sydd wedi'u nodi.
- Ym mhob FHDRA bydd cyfnod lle bydd y Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn ceisio trafod gyda'r partïon er mwyn datrys y cyfan neu rai o'r materion rhyngddynt os yw'n ddiogel gwneud hynny.



BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae CAFCASS Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru
CAFCASS Cymru is part of the Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a CAFCASS Cymru wedi cytuno ar y canlynol:

- Bydd unrhyw drafodaeth rhwng y Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu a phartïon cyn y gwrandawiad cychwynnol yn cael eu cyfyngu i gyflwyniadau a chyfweliadau i nodi risgiau heb eu datrys.

- Bydd y llys yn galw'r partïon a'r Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu i'r llys am wrandawiad cychwynnol cyn bod datrys anghydfod yn y llys yn digwydd.

- Bydd y gwrandawiad cychwynnol yn nodi'r materion yn yr achos ac unrhyw wybodaeth ddiogelu heb ei datrys.

- Bydd y llys yn egluro'r disgwyliad y dylai'r partïon, lle y mae'n ddiogel gwneud hynny, gyfarfod â'r Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu i geisio gwneud cynnydd o ran dod i gytundeb er lles y plant.

- Yna bydd y mater yn cael ei ohirio am gyfnod y cytunwyd arno (awr fel arfer) ar gyfer datrys anghydfod, ac ar ôl hynny caiff y partïon a'r Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu eu galw yn ôl i'r llys i gyflwyno adroddiad ar unrhyw gynnydd a wnaed a nodi'r ffordd ymlaen i ddatrys unrhyw faterion heb eu datrys.

Gwrandawiad Terfynol

Mae Paragraff 14.13 o Gyfarwyddyd Ymarfer 12B yn nodi lle na fydd cytundeb terfynol yn cael ei gyrraedd yn yr FHDRA a'i bod yn ofynnol i'r llys roi cyfarwyddiadau rheoli'r achos, "bydd y canlynol yn cael ei gynnwys ar y gorchymyn:

- A yw'n ofynnol i awdur unrhyw Adroddiad o dan Adran 7 fynd i'r gwrandawiad, er mwyn rhoi tystiolaeth lafar.

- Ni fydd cyfarwyddyd i'r Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn cael ei wneud heb ystyried yn gyntaf y rheswm pam mae eu presenoldeb yn angenrheidiol, ac ar ba faterion y bydd y Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn darparu tystiolaeth."

Dylid nodi:

- Na fydd CAFCASS Cymru yn mynd i'r Penodiadau Datrys Anghydfod (PDA) na'r Gwrandawiadau Terfynol i ddatrys anghydfod.

- Bydd awdur Adroddiad Adran 7 dim ond yn mynd i PDA neu Wrandawiad Terfynol os caiff orchymyn i wneud hynny i roi tystiolaeth.

- Nid yw CAFCASS Cymru yn darparu cymodi na datrys anghydfodau y tu allan i'r llys; dylai'r llys atgyfeirio'r partïon i wasanaeth cyfryngu lleol os bydd angen.

Gorfodi

- Nid yw CAFCASS Cymru yn mynd i Wrandawiadau Cais Gorfodi. Os ar ddiwedd gwrandawiad Cais Gorfodi bydd y llys o'r farn y byddai datrys anghydfod o gymorth, dylid atgyfeirio'r mater i wasanaethau cyfryngu lleol neu ei restru ar gyfer gwrandawiad FHDRA fel y bo'n briodol.

- Dylai'r llys sicrhau y gofynnwyd i CAFCASS Cymru am wiriadau diogelu wedi'u diweddaru cyn rhestru am FHDRA.



OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2015 WG25168